Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Options Kinsale

# Dyddiad yr arolygiad: Medi 2019

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Options Kinsale

Agorwyd Ysgol Options Kinsale yn 2007. Mae'r ysgol yn rhan o grŵp Outcomes First sy'n ceisio darparu gwasanaethau addysg a phreswyl integredig ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA), anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol, ac anawsterau cymdeithasol ac emosiynol.

Mae Ysgol Options Kinsale yn cynnig addysg a gofal preswyl ar gyfer hyd at 30 o ddisgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd ag anghenion cymhleth ac wedi cael diagnosis o ASA. Mae gan yr ysgol 24 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn lleoli disgyblion yn yr ysgol. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion statws plentyn sy'n derbyn gofal (PDG) ac mae llawer ohonynt yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae ychydig iawn o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn ddisgyblion dydd. Mae llawer o ddisgyblion o gefndiroedd Saesneg.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2017. Cefnogir y pennaeth gan dîm addysg sy'n cynnwys pump o athrawon dosbarth, dau diwtor rhan-amser a deg cynorthwyydd cymorth dysgu. Ers yr arolygiad craidd ym Medi 2018, ac yn y cyfnod yn syth ar ôl yr ymweliad monitro hwn, bu nifer o newidiadau staff allweddol i dîm yr ysgol a'r tîm clinigol, gan gynnwys y pennaeth a'r dirprwy bennaeth.

## Prif ganfyddiadau

***Cryfderau***

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd meithringar a gofalgar. Gwneir defnydd effeithiol o arferion dyddiol gan y staff, ac mae hyn yn darparu strwythur a chymorth i leihau pryderon disgyblion ac arddangosiadau o ymddygiad heriol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dangos mwy o ymgysylltiad â dysgu ac yn gwneud cynnydd addas.

Mae cyfarfodydd wythnosol sy'n cynnwys holl staff yr ysgol yn gwella'r cynllunio ar gyfer profiadau dysgu disgyblion. Yn ogystal, mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn dechrau cael eu cynnwys wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm i ddisgyblion unigol. Maent yn cyfrannu'n briodol at fonitro cyfranogiad disgyblion mewn gweithgareddau dysgu.

Mae'r ysgol yn dechrau datblygu'r amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion ag anghenion synhwyraidd ac ymddygiadol mwy cymhleth. Mae'r amgylchedd dysgu hwn yn cynorthwyo staff i ddarparu cwricwlwm unigol mwy priodol ar gyfer pob disgybl. Fodd bynnag, datblygiad diweddar yw hwn ac mae'n rhy gynnar i asesu'r effaith yn llawn.

***Meysydd i'w datblygu***

Nid yw'r ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Yn gyffredinol, cynnydd araf mae'r ysgol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad craidd diwethaf. Felly, mae'r argymhellion blaenorol o fis Medi 2018 yn parhau.

Bu newidiadau staff sylweddol ar draws yr ysgol a'r tîm clinigol. Mae hwn yn ffactor sy'n cyfrannu at gyfradd araf y cynnydd tuag at fodloni'r argymhellion o'r arolygiad craidd.

**Argymhellion**

**Dylai'r ysgol:**

**A1. Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003**

**A2. Rhoi systemau effeithiol ar waith i olrhain cynnydd disgyblion mewn dysgu ar draws ystod ehangach o fedrau**

**A3. Gwella ansawdd cynllunio tymor hir athrawon ar draws y cwricwlwm**

**A4. Sicrhau bod staff cymorth dysgu yn cael yr hyfforddiant ac yn dysgu'r medrau sydd eu hangen i gyflawni eu rolau yn effeithiol**

**A5. Cryfhau prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

**A6. Sicrhau trefniadau arweinyddiaeth a staffio yn yr ysgol**

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003**

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 a arolygwyd yn ystod yr ymweliad hwn.

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio â safon 1, **ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**, ac yn benodol, 1(2) o'r safon hon. Mae polisi cwricwlwm diwygiedig ar waith, a gefnogir gan gynlluniau gwaith priodol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i werthuso p'un a yw'r cynlluniau hyn a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

**Argymhelliad 2: Rhoi systemau effeithiol ar waith i olrhain cynnydd disgyblion mewn dysgu ar draws ystod ehangach o fedrau**

Yn ddiweddar iawn, mae'r ysgol wedi sefydlu grŵp sicrhau ansawdd mewnol ac mae'n datblygu cysylltiadau ag ysgolion arbennig ar draws y rhanbarth. Diben y gweithgarwch hwn yw datblygu hyder wrth olrhain a llunio barnau sicr ynglŷn â chynnydd disgyblion.

Mae'r system olrhain a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cynnwys targedau unigol i ddisgyblion ar gyfer llythrennedd, rhifedd ac addysg bersonol a chymdeithasol. Hefyd, a lle bo'n briodol, mae system ar waith i fonitro cynnydd medrau echddygol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw olrhain targedau a chynnydd disgyblion wedi'i gysoni'n ddigon da bob amser ag argymhellion penodol y staff clinigol. Mewn llawer o achosion, nid yw argymhellion staff clinigol yn gyfredol.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn ar yr agwedd hon ar waith yr ysgol.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd cynllunio tymor hir athrawon ar draws y cwricwlwm**

Mae'r ysgol yn datblygu ei chynllunio tymor hir a'i chynlluniau gwaith yn briodol. Mae'r rhain yn cysylltu â saith maes y cwricwlwm a'r tri llwybr datblygu'r cwricwlwm ym mholisi cwricwlwm yr ysgol.

Mae amserlen unigol gan bob un o'r grwpiau addysgu, ac ar gyfer pob disgybl ceir deilliannau dynodedig sy'n gysylltiedig â'u hanghenion penodol a'r gwaith ar gyfer y tymor. Cyflwynwyd yr ymagwedd hon ym Medi 2019. Mae'n rhy gynnar i asesu effaith yr ymagwedd hon at gynllunio a chynlluniau gwaith ar addysg a chynnydd disgyblion.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod staff cymorth dysgu yn cael yr hyfforddiant ac yn dysgu'r medrau sydd eu hangen i gyflawni eu rolau yn effeithiol**

Caiff yr holl gynorthwywyr cymorth dysgu fynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu rheolaidd a pherthnasol a ddarperir gan yr ysgol. Yn ddiweddar, er enghraifft, mynychodd y staff raglen lleferydd ac arwyddo chwe wythnos. Mae amserlen

reolaidd o gyfarfodydd wythnosol rhwng athrawon a staff cymorth dysgu ar waith. Mae hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer trafodaethau buddiol ynglŷn â dysgu ac ymddygiad disgyblion, ac mae'n cefnogi cyd-gynllunio profiadau dysgu priodol. Fodd bynnag, mae trosiant staff wedi lleihau effaith yr hyfforddiant hwn.

**Argymhelliad 5: Cryfhau prosesau ar gyfer sicrhau ansawdd, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant**

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno prosesau i gryfhau sicrhau ansawdd, hunanwerthuso, a chynllunio gwelliant. Mae'r cwmni wedi sicrhau gwasanaethau ymgynghorydd allanol sy'n cynorthwyo'r pennaeth a'r ysgol wrth ddatblygu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o brosesau hunanwerthuso'r ysgol, er enghraifft trwy gynnal cyfarfodydd staff sicrhau ansawdd yn wythnosol. Fodd bynnag, mae newidiadau yn yr arweinyddiaeth a staffio wedi cael effaith negyddol ar allu'r ysgol i wneud cynnydd digonol wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Sicrhau bod y polisi cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan gynlluniau gwaith effeithiol, a'u bod yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol [1(2)].

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Standard 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### *Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol ar hyn o bryd yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2019